CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD BRO MORGANNWG 2021-2036

# ADRODDIAD YMGYSYLLTO CYN ADNEUO

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Rhagfyr 2023



PAPUR CEFNDIROL - PB1

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

This document is available in English/ Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

# CYNNWYS


**1. Cyflwyniad ........................................................................... 1**

**2. Cytundeb Cyflawni (CC).................................................................. 1**

**3. Galwad am Safleoedd Ymgeisiol.................................................... 1**

**4. Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ........................................................................................ 2**

**5. Ymgysylltu â Materion, Gweledigaeth, ac Amcanion y CDLIN..... 2**

5.1. Gweithdai Rhanddeiliaid ac Aelodau Etholedig ............................................. 2

5.2 Newidiadau i'r Weledigaeth a'r Amcanion ..................................................... 3

**6 Ymgysylltiad ar Ddewisiadau Twf a Gofodol................................. 3**

6.1 Gweithdai Rhanddeiliaid ac Aelodau Etholedig ............................................. 3

6.2 Adborth a Chasgliadau ar Lefel y Twf ........................................................... 4

6.3 Adborth a Chasgliadau ar Ddewisiadau Strategaeth Ofodol ......................... 4

6.4 Y Strategaeth a Ffefrir ......................................................................... 5

# 1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae'r Adroddiad Ymgysylltu Cyn Adneuo wedi'i baratoi i ddangos yr ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd wedi llywio'r Weledigaeth, yr Amcanion, lefel y twf a'r opsiynau strategaeth a ystyriwyd fel rhan o'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN). Mae hefyd yn dangos cydymffurfiaeth â'r Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC).

1.2. Bwriad y Crynodeb Gweithredol hwn yw cynnig disgrifiad o'r materion allweddol a godwyd mewn ymateb i'r arferion ymgysylltu a gynhaliwyd ac ni fwriedir iddo fod yn adolygiad cynhwysfawr o bob sylw a dderbyniwyd.

# 2. CYTUNDEB CYFLAWNI (CC)

2.1. Mae paratoi CC, sy'n manylu ar gamau paratoi CDLIN a'u hamserlenni, yn ofyniad statudol ar yr Awdurdod Lleol. Mae CC hefyd yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cynnwys y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill wrth baratoi’r Cynlluniau.

2.2. Roedd y CC drafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 05/11/2021 a 31/01/2022.

2.3. Gwnaeth 17 o ymatebwyr sylwadau ar y drafft; cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr â'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer ymgysylltu ond cafwyd safbwyntiau cymysg ar ddulliau. Gwnaeth nifer o’r ymatebwyr sylwadau ar hyd a natur dechnegol y ddogfen, roedd ansicrwydd ynghylch pryd a sut i ymgysylltu â phroses baratoi'r Cynllun, ac a oedd modd cyflawni'r amserlen.

2.4. Cafodd yr holl sylwadau eu cydnabod a'u hystyried gan y Cyngor. Yn dilyn hynny, cafodd nifer o fân welliannau eu gwneud i'r CC drafft, gan gynnwys ymestyn y cyfnod ar gyfer adolygu'r sylfaen dystiolaeth a'r amserlen ar gyfer cwblhau asesiadau Safleoedd Ymgeisiol. Cymeradwywyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r newidiadau arfaethedig gan y Cabinet ar 14/03/2022, y Cyngor Llawn ar 25/04/2022 a Llywodraeth Cymru ar 04/05/2022.

# 3. GALWAD AM SAFLEOEDD YMGEISIOL

3.1. Cynhaliwyd yr alwad swyddogol am Safleoedd Ymgeisiol, lle cyflwynwyd safleoedd i'w hystyried i'w dyrannu o bosibl yn y CDLIN, rhwng 20/06/2022 a 13/09/2022.

3.2. Cyflwynwyd cyfanswm o 148 o safleoedd ar gyfer ystod o ddefnyddiau gan gynnwys tai, cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy.

3.3. Yn unol â CC y Cyngor, hysbysebwyd yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol ar wefan a chyfryngau cymdeithasol y Cyngor a hysbyswyd yr holl randdeiliaid a oedd wedi cofrestru eu diddordeb yn y broses CDLIN hefyd drwy e-bost neu lythyr.

## 4. ADRODDIAD CWMPASU’R ARFARNIAD CYNALIADWYEDD INTEGREDIG (ACI)

4.1. Mae Adroddiad Cwmpasu’r ACI Drafft yn amlinellu'r materion a'r amcanion y bydd cynaliadwyedd y CDLIN yn cael ei asesu yn eu herbyn. Mae'r ACI ar gyfer CDLIN Bro Morgannwg yn cael ei gynnal gan ymgynghorwyr arbenigol AECOM.

4.2. Roedd yr Adroddiad Cwmpasu Drafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 24/08/2022 a 29/09/022; roedd crynodeb annhechnegol cysylltiedig ar gael hefyd. Gwahoddwyd yr ymatebwyr i gyflwyno eu sylwadau naill ai ar-lein neu drwy'r post.

4.3. Derbyniwyd 19 o ymatebion mewn perthynas â:

- Pridd/Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Hyblyg.
- Tai fforddiadwy ar raddfa fach i gefnogi cymunedau lleol.
- Mwynau – gan gynnwys yr angen am Bapur Cefndir Mwynau.
- Cysylltedd rhanbarthol, tai, cyflogaeth a thrafnidiaeth.
- Trosedd, anhrefn a diogelu drwy ddylunio.

4.4. Derbyniwyd sawl sylw yn ymwneud â'r polisïau presennol o fewn y CDLI mabwysiedig. Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried yng nghamau dilynol proses y CDLIN, gan eu bod yn berthnasol i'r ymgynghoriad ar Adroddiad Cwmpasu’r ACI.

4.5. Mae'r ymatebion hyn wedi cael eu hystyried gan AECOM, sydd wedi cynnig diwygiadau i'r Fframwaith ACI.

## 5. YMGYSYLLTU Â MATERION, GWELEDIGAETH, AC AMCANION Y CDLLN

### 5.1. Gweithdai Rhanddeiliaid ac Aelodau Etholedig

5.1.1 I sicrhau bod y CDLIN yn adlewyrchu'r materion allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw yn y Fro, cynhaliodd y Cyngor gyfres o weithdai ymgysylltu gydag Aelodau Etholedig, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a Chynghorau Tref a Chymuned.

5.1.2 Rhoddodd y gweithdai hyn gyfle i randdeiliaid gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r Weledigaeth a'r Amcanion arfaethedig a fydd yn gosod cyfeiriad y CDLIN.

5.1.3 Cyn y gweithdai, dosbarthwyd arolwg i bob gwahoddiad, i sefydlu'r Materion allweddol y dylai'r CDLIN fynd i'r afael â nhw, ac uchelgeisiau ar gyfer dyfodol y Fro. Dangosodd y canlyniadau nifer o faterion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol allweddol sy'n bwysig i'w hystyried yn y Cynllun.

5.1.4 Cynhaliwyd y gweithdai yn rhithwir trwy Microsoft Teams, gydag adborth yn defnyddio'r gwasanaeth pleidleisio ar-lein www.mentimeter.com, lle

gofynnwyd i'r rhai a fynychwyd ateb cwestiynau ar eu ffôn symudol, yn ogystal ag ar lafar neu drwy swyddogaeth sgwrsio Teams.

5.1.5 Dosbarthwyd arolygon ychwanegol ar ôl pob gweithdy, i gasglu unrhyw adborth a allai fod wedi'i golli yn ystod y sesiwn.

5.1.6 Trwy gyfuno'r dulliau ymgysylltu hyn, gwnaed sylwadau ar y Weledigaeth a'r Amcanion drafft dan bob un o'r naw thema:

- Newid yn yr Hinsawdd
- Iechyd a Lles Meddyliol a Chorfforol
- Cartrefi i Bawb
- Creu Lleoedd
- Gwarchod a Gwella Ansawdd yr Amgylchedd Naturiol
- Gwarchod a Gwella Ansawdd yr Amgylchedd Adeiledig/Diwylliant a Threftadaeth
- Cymunedau Amrywiol, Bywiog, a Chysylltiedig
- Hyrwyddo Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy
- Adeiladu Economi Lewyrchus a Gwyrdd

5.1.7 Cafodd Uwch Swyddogion y Cyngor gyfle hefyd i wneud sylwadau ar y Weledigaeth a'r Amcanion. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar y weledigaeth a'r amcanion.

## 5.2 Newidiadau i'r Weledigaeth a'r Amcanion

5.2.1 Arweiniodd yr ymgysylltu hwn at newidiadau sylweddol i'r Weledigaeth a'r Amcanion drafft. Cymeradwywyd y newidiadau hyn, a'r Papur Cefndir ar y Materion, y Weledigaeth a'r Amcanion gan y Cabinet ar 27 Ebrill 2023 (mae Cofnod Rhif 298 yn cyfeirio at hyn).

# 6 YMGYSYLLTIAD AR DDEWISIADAU TWF A GOFODOL

## 6.1 Gweithdai Rhanddeiliaid ac Aelodau Etholedig

6.1.1 Cynhaliwyd cyfres o weithdai ymgysylltu gydag Aelodau Etholedig, Cynghorwyr Tref a Chymuned a'r BGC ar ddechrau 2023 i lywio'r dewisiadau twf a gofodol a gyflwynwyd ac a nodwyd yn y Strategaeth a Ffefrir. Cafodd rhanddeiliaid y cyfle i wneud sylwadau ar ddeuddeg senario poblogaeth, tai a chyflogaeth, a gategoreiddiwyd yn dwf isel, canolig ac uchel. Gofynnwyd am farn rhanddeiliaid hefyd ar ddosbarthiad gofodol twf, gyda phedwar dewis strategaeth ofodol yn cael eu cyflwyno:

- 1 - Parhau â'r Strategaeth CDLl fabwysiedig
- 2 – Twf Gwasgaredig
- 3 – Twf â Ffocws
- 4 – Twf sy'n Canolbwyntio ar Drafnidiaeth Gynaliadwy

6.1.2 Cynhaliwyd y gweithdai hyn hefyd trwy Microsoft Teams, a chroesawyd y rhai a fynychodd i drafod y Dewisiadau a gofyn cwestiynau, ar lafar neu drwy swyddogaeth sgwrsio Teams, yn ogystal â thrwy ddefnyddio www.mentimeter.com.

6.1.3 Dosbarthwyd arolygon ychwanegol ar ôl pob gweithdy, i gasglu unrhyw adborth a allai fod wedi'i golli yn ystod y sesiwn.

## 6.2 Adborth a Chasgliadau ar Lefel y Twf

6.2.1 Fel rhan o'r gweithdy, cyflwynwyd cyfres o ragolygon twf poblogaeth a thai a chyflogaeth.

6.2.2 Ysgogodd y cyflwyniad ar Ddewisiadau Twf drafodaeth helaeth, gyda sylwadau yn cael eu gwneud ar y themâu cyffredinol canlynol:

- Ystyried strategaeth twf Caerdydd
- Ystyried adeiladau gwag
- Effeithiau Covid e.e. patrymau cymudo a meintiau tai
- Sicrhau darpariaeth tai fforddiadwy briodol

6.2.3 Ar ôl trafod y Dewisiadau, gofynnwyd i randdeiliaid gwblhau arolwg, trwy Mentimeter neu MS Forms fel yr amlinellwyd uchod. Dangosodd hyn fod rhanddeiliaid yn ffafrio'n glir ddewis Twf Canolig, gyda 72% o'r pleidleisiau o blaid y Dewis hwn.

## 6.3 Adborth a Chasgliadau ar Ddewisiadau Strategaeth Ofodol

6.3.1 Trwy gyfuniad o'r dulliau ymgysylltu a nodir uchod, a dau ymateb ysgrifenedig, gwnaed y sylwadau cyffredinol canlynol ar y Dewisiadau Gofodol arfaethedig:

- Mae'r strategaeth CDLl fabwysiedig yn canolbwyntio gwaith datblygu ar Faes Awyr Caerdydd a Sain Tathan ac yn caniatáu datblygu mewn aneddiadau heb lawer o gyfleusterau, sydd wedi achosi problemau.
- Gallai gwaith datblygu crynodedig roi'r cyfle i gynnig gwasanaethau ychwanegol.
- Mae angen tai fforddiadwy o hyd ar aneddiadau sy'n isel yn yr hierarchaeth.
- Rhaid ystyried y rhwydwaith trafnidiaeth a'i allu i ddarparu ar gyfer twf yn y dyfodol.

6.3.2 Mae data a gasglwyd o'r arolygon Mentimeter, ac MS Forms yn dangos bod rhanddeiliaid yn ffafrio'n glir Strategaeth Ofodol 4 – Twf sy'n Canolbwyntio ar Drafnidiaeth Gynaliadwy, gyda 74% o'r pleidleisiau o blaid y Dewis hwn.

6.3.3 Ceisiodd yr arolygon hefyd farn rhanddeiliaid ar ba elfennau strategaeth ddylai fod yn rhan o'r Strategaeth a Ffefrir. 'Targedu gwaith datblygu i ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan drenau', 'targedu ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan fysus' a 'gwaith datblygu sy'n cael ei arwain gan dai fforddiadwy i fodloni angen' oedd y tair blaenoriaeth uchaf.

6.3.4 Rhoddodd yr arolygon hefyd gyfle i randdeiliaid awgrymu dewisiadau strategaeth eraill yr oeddent o'r farn y dylent gael eu hystyried. Y prif ymateb

oedd ystyried setliad newydd yn Llandŵ. Mae hyn wedi cael ei ddiystyru oherwydd y gwrthwynebiad polisi cryf a nodir yn Argraffiad 11 Polisi Cynllunio Cymru.

## 6.4 Y Strategaeth a Ffefrir

6.4.1 Datblygwyd y Strategaeth a Ffefrir ar sail argymhellion rhanddeiliaid a'r casgliadau ymgysylltu ar lefel y twf, a'i ddosbarthiad gofodol.

6.4.2 Dangosodd ymgysylltu gefnogaeth ar gyfer Dewis Twf Canolig, gan ddarparu rhwng 400 a 550 o gartrefi newydd y flwyddyn. Ystyriwyd yn fanwl y dewisiadau ac ystyrir mai'r lefel fwyaf priodol o dwf fyddai 526 o gartrefi newydd y flwyddyn, yn seiliedig ar gyfraddau adeiladu yn y gorffennol ar gyfer y cyfnod 2011-2021.

6.4.3 Dangosodd ymgysylltu hefyd ffafriaeth gref ar gyfer Strategaeth Ofodol Opsiwn 4 – Twf sy'n Canolbwyntio ar Drafnidiaeth Gynaliadwy. Ystyrir mai'r dewis hwn yw'r un mwyaf addas, a'r un sy'n cyd-fynd orau â pholisi cynllunio cenedlaethol.

RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Adfywio a Chynllunio
Swyddfa'r Doc
Dociau'r Barri
Y Barri CF63 4RT

LDP@valeofglamorgan.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

